**PWYLLGOR SAFONAU**
**4 CHWEFROR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Llun, 4 Chwefror 2019

**YN BRESENNOL: Rob Dewey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom a Paul Johnson

Aelodau Cyfetholedig:
Jonathan Duggan-Keen, Phillipa Earlam, Edward Hughes, Julia Hughes a Ken Molyneux

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Arnold Woolley

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Swyddog Monitro a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 52. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 53. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 54. GODDEFEBAU

Dim.

## 55. TROSOLWG O GWYNION MOESEGOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro. Roedd yr adroddiad yn nodi nifer y cwynion moesegol sydd wedi'u cyflwyno hyd yma i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn ag achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad. Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor ym mis Mawrth 2018, mae'r cwynion wedi'u nodi gan wahaniaethu rhwng gwahanol gynghorau a chynghorau, ond nid yw'n eu henwi.

Soniodd y Dirprwy Swyddog Monitro am y rhestr o gwynion a dderbyniwyd yn ystod 2017/18 (gweler yr atodiad). Dywedodd fod dau gŵyn wedi'u derbyn ers yr adroddiad diwethaf. Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod nifer o gwynion wedi'u derbyn ynglŷn ag un Cyngor Tref. Roedd un o'r rhain gan aelod o'r cyhoedd ac mae ymchwiliad yn mynd rhagddo.

Yn ystod y drafodaeth eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro ychydig am y flwyddyn y gwnaethpwyd y cwynion. Gwnaeth y Cadeirydd sylw ar yr achosion o dorri'r cod ymddygiad a oedd yn ymwneud â bwlio, ac awgrymodd y dylid darparu mwy o hyfforddiant i Gynghorau Tref a Chymuned i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Julia Hughes am amlder adroddiadau ar gwynion moesegol, dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro y cytunwyd i gynnwys trosolwg o gwynion moesegol fel eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor a darparu diweddariadau pan fo cwynion newydd. Cytunodd i adolygu penderfyniad y Pwyllgor ac adrodd yn ôl.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi nifer a math y cwynion.

## 56. HYFFORDDIANT CYNGHORWYR 2018

Darparodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad ar lafar i roi gwybod i'r Pwyllgor am bresenoldeb cynghorwyr yn y sesiwn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2018. Eglurodd fod y sesiwn hyfforddiant wedi'i chynnal gan Gyngor Tref Saltney ac wedi'i fynychu gan nifer o gynrychiolwyr o Gynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod 21 o bobl wedi llofnodi'r gofrestr bresenoldeb ar 17 Hydref ond bod mwy o bobl yn bresennol na hynny.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 57. ADRODDIADAU O YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL Â CHYNGHORAU TREF/CYMUNED

Cafwyd adroddiadau ar lafar gan yr aelodau canlynol:

Phillipa Earlam – Cyngor Cymuned Llanasa
Julia Hughes – Cyngor Tref Caerwys a Chyngor Cymuned Ysgeifiog
Y Cadeirydd – Cyngor Cymuned Nercwys

Dywedodd pob un fod arsylwi'r cyfarfodydd wedi bod yn brofiad cadarnhaol a bod pob cyfarfod wedi'i gadeirio'n dda gan y Cadeiryddion (ac Is-Gadeirydd mewn un achos) gyda chefnogaeth gan y clerc a chyfranogiad da gan y mynychwyr.

Gwneir y pwyntiau canlynol i helpu Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno mynd i gyfarfodydd:

- Unwaith eto fe wneir y pwynt am bwysigrwydd gwneud lleoliad cyfarfodydd yn glir a darparu gwybodaeth ar y wefan ac ar hysbysfyrddau, yn ogystal ag arwyddo lleoliad y cyfarfod yn glir pan fo mwy nag un ystafell yn yr adeilad

- Dylid gwneud y mwyaf o osodiad ystafell gyfarfod, i wneud yn siŵr bod modd i'r cyhoedd allu gweld a chlywed yr aelodau

- Er budd y cyhoedd sy'n bresennol mewn cyfarfod, dylai aelodau gyflwyno eu hunain

- Dilyn gofynion y cod ymddygiad wrth ddatgan cysylltiadau, gan gynnwys egluro natur y cysylltiad, pam ei fod wedi codi a pha gamau y cymerir (e.e. gadael yr ystafell os yw'n gysylltiad sy'n rhagfarnu), a bod y Cadeirydd yn gofyn a oes datganiadau o'r fath ar ddechrau'r cyfarfod cyn ystyried busnes y cyfarfod

Gofynnodd y Cyng. Patrick Heesom am ragor o wybodaeth gan yr aelodau annibynnol mewn perthynas â'r gweithdrefnau a ddilynir ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio yn ystod cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned y maent wedi'u harsylwi. Dywedodd fod angen sicrhau bod barn Cynghorau Tref a Chymuned yn cael ei datgan yn glir yn ystod cyfarfodydd.

Soniodd y Cyng. Paul Johnson am gost creu gwefan ac roedd yn teimlo bod hynny'n wariant sylweddol i gynghorau bach. Gofynnodd a oes modd rhoi rhaglenni a chofnodion Cynghorau Tref a Chymuned ar wefan ganolog wedi'i darparu gan yr Awdurdod er mwyn i bawb eu gweld. Cyfeiriodd y Cadeirydd at ofynion Deddf Democratiaeth Leol 2013. Roedd y Cyng. Johnson o'r farn bod angen cymorth technegol proffesiynol ar Gynghorau Tref a Chymuned i'w helpu i greu a chynnal gwefan.

Gofynnodd Ken Molyneux bod yr adborth a ddarperir i Gynghorau Tref a Chymuned yn cael ei anfon at aelodau annibynnol yr un pryd.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynyddu nifer yr adroddiadau gan aelodau annibynnol sydd wedi ymweld â Chyngor Tref neu Gymuned.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiadau ar lafar a darparu'r adborth uchod i'r 4 Cyngor Tref a Chymuned.

## 58. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Derbyniwyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol.

Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro nad yw canlyniad yr ymgynghoriad gyda chydweithwyr yr Undeb Llafur ynghylch Cod Ymddygiad Swyddogion wedi'i dderbyn eto, ac ni ragwelir y bydd ar gael i'w gyflwyno yn ystod y cyfarfod nesaf ychwaith.

Yn dilyn awgrym Phillipa Earlam, cytunwyd i gynnwys diweddariad ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Julia Hughes, cytunodd y Dirprwy Swyddog Monitro i holi a yw'r llyfr achosion chwarterol yr Ombwdsman wedi'i gyhoeddi.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad uchod, nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 59. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

((Dechreuodd y cyfarfod am 6.30 pm a daeth i ben am 7.35 pm)
)

....................................................
**Cadeirydd**